**Y Gwir Anrh/ Rt Hon Mark Drakeford AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: FM -/00228/20

Adam Price
AC Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Adam.price@cynulliad.cymru

8 Mawrth 2020

Annwyl Adam,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 11 Chwefror yn gofyn am gyfarfod i drafod cyflawni'r mesurau y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru fel rhan o'r cytundebau Cyllideb yr ydym wedi'u gwneud yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

Rwy'n gwybod bod fy nghydweithwyr yn y Cabinet wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau Plaid Cymru am y cynnydd wrth gyflawni'r amryw o ymrwymiadau a wnaed yn y cytundebau Cyllideb yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Darperir gwybodaeth bellach isod o ran y cynlluniau penodol yr ydych wedi cyfeirio'n benodol atynt yn eich llythyr.

Gofal iechyd meddwl amenedigol

Gofynnwyd i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) sefydlu darpariaeth i famau a babanod er mwyn galluogi mamau i gael gafael ar gymorth mwy dwys yn ôl yr angen.

Nodwyd mai ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yw'r lleoliad a ffefrir ar gyfer y gwasanaeth hwn. Mae WHSSC yn ymchwilio ar frys i ddarpariaeth uned chwe gwely i famau a babanod dros dro tra bod trefniadau tymor hwy yn cael eu rhoi ar waith. Bydd y trefniadau dros dro hyn yn cael eu lleoli ar safle Ysbyty Tonna a disgwylir iddynt fod yn eu lle erbyn gwanwyn 2021. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cymeradwyo'r cyllid cyfalaf ar gyfer y gwaith hwn ac mae hefyd wedi ymrwymo arian ychwanegol i ddatblygu capasiti a gallu'r gweithlu cyn i'r uned ddod yn weithredol. Mae'r Gweinidog hefyd wedi gofyn i WHSSC gynnal arfarniad opsiynau pellach i benderfynu ar y model priodol ar gyfer uned iechyd meddwl amenedigol barhaol i famau a babanod.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ffordd osgoi Llandeilo
Ysgrifennodd y Gweinidog Trafnidiaeth atoch ar 28 Ionawr i roi'r diweddaraf ichi am y sefyllfa bresennol. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal arddangosfa ac ymgynghoriad cyhoeddus cam 2 Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ym mis Rhagfyr 2019 ond fe'i gohiriwyd er mwyn ymateb yn briodol i adborth a gwrthwynebiadau a godwyd gan Sustrans a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bydd yr arddangosfa ac ymgynghoriad cyhoeddus cam 2 yn digwydd cyn gynted ag y bydd mannau cyhoeddus ar gael. Unwaith y bydd yr adolygiad o ganfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gwblhau, bydd argymhellion drafft yn cael eu rhoi gerbron panel adolygu WelTAG i'w cymeradwyo cyn toriad yr haf. Gyda chytundeb, byddai comisiwn cam 3 WelTAG yn cael ei gynnal, a gallai prosiect fod yn barod i'w adeiladu yn ystod tymor yr hydref 2022.

Metro Bae Abertawe a Chymoedd y Gorllewin
Dyrannwyd cyllid i Gyngor Dinas Abertawe yn 2019-20 i fwrw ymlaen â'r gwaith ar Fetro'r De-orllewin ar ran rhanbarth Bae Abertawe. Mae hyn wedi caniatáu i'r rhanbarth, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth i Gymru a rhanddeiliad lleol ddatblygu rhaglen sy'n ffocysu ar ei hamcanion strategol a'i hanghenion cysylltedd rhanbarthol.

Rydym yn disgwyl i'r gwaith hwn nodi a datblygu'r blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yn y rhanbarth a byddwn yn rhoi'r gorchwyl i Drafnidiaeth Cymru fwrw ymlaen ag ef yn y rhanbarth yn y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys sefydlu trefniadau llywodraethu a rhaglen i fwrw ymlaen â phrosiect y Metro.

Rhoddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yr wybodaeth ddiweddaraf i Rhun ap Iorwerth ym mis Medi, yn unol â'r ymrwymiad rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i adolygu'r cynnydd o ran y cytundebau Cyllideb. Mae hi wedi gofyn i'w swyddogion baratoi diweddariad pellach ac mae'n fodlon ymhelaethu ar hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol pe bai hynny o gymorth. Bydd ei swyddfa'n cysylltu â chi i wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer cyfarfod cyn gynted â phosibl.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

Yn gywir,
Mark.

**MARK DRAKEFORD**